Cyfarfod a dyddiad: **Meeting and date:**	Bwrdd Iechyd 15 Gorffennaf 2021
Cyhoeddus neu Breifat: **Public or Private:**	Cyhoeddus
Teitl yr Adroddiad: **Report Title:**	Adroddiad y Prif Weithredwr
Cyfarwyddwr Cyfrifol: **Responsible Director:**	Jo Whitehead, Prif Weithredwr
Awdur yr Adroddiad: **Report Author:**	Louise Brereton, Ysgrifennydd y Bwrdd
Craffu Blaenorol: **Prior Scrutiny:**	Jo Whitehead, Prif Weithredwr
Atodiadau: **Appendices:**	Atodiad 1: Adroddiad sicrwydd Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru o 11.5.21 Atodiad 2: Adroddiad sicrwydd Cadeirydd Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru o 20.5.21

Argymhelliad / Recommendation:

Bod y Bwrdd Iechyd yn nodi adroddiad y Prif Weithredwr.

Ticiwch fel sy'n briodol (cofiwch y bydd Cadeirydd y cyfarfod yn adolygu'r ddogfen ac o bosibl yn penderfynu y dylid ei hystyried o dan gategori gwahanol)

Ar gyfer penderfyniad /cymeradwyaeth For Decision/ Approval		**Ar gyfer trafodaeth For Discussion**		**Ar gyfer sicrwydd For Assurance**		**Er gwybodaeth For Information**	✔

Ydi/Nac ydi i nodi a yw'r ddyletswydd Cydraddoldeb/SED yn berthnasol	**Nac ydi**

Sefyllfa / Situation:

Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am faterion allweddol sy'n effeithio ar y sefydliad ac i dynnu sylw'r Bwrdd at feysydd o ddiddordeb amserol.

Mae nifer o faterion a godir yn yr adroddiad hwn yn cael mwy o sylw yn adroddiadau'r Cyfarwyddwyr Gweithredol fel rhan o fusnes cyhoeddus y Bwrdd.

Cefndir / Background:

Mae'r adroddiad hwn yn ceisio rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Bwrdd am y gweithgareddau, yr ymrwymiadau a'r cyfarfodydd allweddol a gynhaliwyd gan y Prif Weithredwr newydd yn ystod y cyfnod cynefino, a rhoi trosolwg o'r datblygiadau lleol a chenedlaethol sydd o ddiddordeb.

Asesiad a Dadansoddiad / Assessment & Analysis

Cyfarfodydd a digwyddiadau'r Prif Weithredwr

Dros y mis neu ddau diwethaf, rwyf wedi parhau i gwrdd ac ymgysylltu â chydweithwyr a rhanddeiliaid eraill. Ym mis Mai, aeth Mark Polin a minnau i ddigwyddiad dadorchuddio gwaith celf a gomisiynwyd gan elusen Awyr Las yn Ysbyty Glan Clwyd. Mae hwn yn ddarn hynod o waith celf sy'n ceisio rhoi cydnabyddiaeth i ymdrechion enfawr holl gydweithwyr Prifysgol Betsi Cadwaladr drwy gydol pandemig Covid-19. Aethom hefyd i Dŷ Doctor yn Nefyn a mwynhau cwrdd â thîm y practis. Fe wnes i hefyd ymuno â sesiwn datblygu gweithlu a sefydliadol rhithiol fel rhan o'n dull gweithredu Mewn Undod Mae Nerth/Stronger Together sy'n datblygu'n gyflym ac sy'n golygu bod cydweithwyr yn gallu cael rhywfaint o amser myfyrio pwrpasol i ystyried beth maen nhw'n ei weld, ei deimlo a'i brofi fel rhan o'r sefydliad.

Ym mis Mehefin, ymwelodd Mark a minnau â Wockhardt UK Ltd yn Wrecsam sydd wedi chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o gynhyrchu brechiadau Covid-19. Fe wnes i hefyd ymweld â Gweithwyr Cymorth Clinigol yr Uned Feddygol Aciwt yn ddiweddar i glywed am eu rolau cymorth ac yn benodol pa mor bwysig mae'r rhain wedi bod i ni o ran rheoli effaith Covid 19. Yn fwy diweddar, fe es i draw i Bractis Meddygol Roseneath ym Mwcle a chlywed am eu rôl nhw yn y rhaglen frechu yng ngogledd-ddwyrain yr ardal yn ogystal â'u holl wasanaethau arferol. Yn olaf, digwyddiad o ddiddordeb mawr i mi oedd cael taith o amgylch Adran Radioleg Ysbyty Gwynedd a chwrdd â Dr Kakali Mitra.

Rydym hefyd wedi cael y pleser o gynnal dau ymweliad gweinidogol yn ystod yr wythnosau diwethaf. Roeddem yn falch iawn o groesawu Eluned Morgan, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, i Ogledd Cymru ddydd Gwener 18 Mehefin i gyfarfod â chydweithwyr o wasanaethau offthalmoleg Wrecsam, gwasanaethau gofal fasgwlaidd a gofal wedi'i gynllunio. Roedd hefyd wedi ymweld â chanolfan frechu Plas Madog. Ddydd Mercher 30 Mehefin, ymunodd Lynne Neagle, y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant â ni yn uned Gwasanaeth Glasoed Gogledd Cymru yn Abergele am daith o amgylch yr uned a chyfle i gwrdd â chydweithwyr a phobl ifanc. Yn ddiweddarach ymwelodd â 'MI FEDRAF' yn y Fflint.

Yn dilyn etholiadau diweddar y Senedd, rydym yn parhau i gwrdd ag Aelodau presennol ac Aelodau newydd lleol y Senedd, ynghyd ag Aelodau Seneddol (ASau) i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am ddarparu gwasanaethau, cynlluniau ac i drafod unrhyw faterion byw.

Diweddariadau lleol

- **Rheoli Pwysau yn sgil COVID-19**

Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r DU yn y cyfnod cyn penllanw'r drydedd don sy'n cynnwys amrywiolyn delta Covid 19 ac ar 18 Mehefin 2021, cyhoeddodd y Prif Weinidog fod Cymru yng nghamau cynnar trydedd ton haint COVID-19. Mae holl siroedd Gogledd Cymru wedi gweld cynnydd mewn cyfraddau heintio yn y gymuned dros yr wythnosau diwethaf, gyda thystiolaeth o drosglwyddo'r feirws yn y gymuned yn amlwg, a chyfraddau achosion yng Ngogledd Cymru yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan. Y profiad sydd wedi codi dro ar ôl tro yn ystod y pymtheg mis diwethaf yw bod cynnydd mewn cyfraddau trosglwyddo yn y gymuned wedi bod yn gysylltiedig â chynnydd yn nifer y bobl sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty a lledaeniad nosocomiaidd COVID-19. Er ein bod yn gobeithio bod y cysylltiad hwn wedi cael ei wanhau gan frechiad, rydym yn parhau i fod yn wyliadwrus wrth i ni baratoi ar gyfer unrhyw ymchwydd yn y dyfodol ac wrth gynnal ein systemau i ddiogelu ysbytai. Yn ogystal â dyfodiad trydedd ton heintiadau COVID-19, rydym ni nawr yn gweld cynnydd mewn firysau anadlol eraill hefyd ac mae'n bosibl y bydd hyn yn codi'n uwch na'r cyfraddau tymhorol arferol. Mae adroddiad pellach ar ymateb parhaus y Bwrdd Iechyd i bwysau COVID-19 wedi'i gynnwys ar agenda'r Bwrdd Cyhoeddus, sy'n trafod hyn a'r

rhaglen frechu barhaus ymhellach. Rwyf yn parhau i ddiolch yn bersonol i holl staff BIPBC am eu gwaith parhaus i gadw ein cymunedau a'n cydweithwyr yn ddiogel.

- **Ysgol Feddygol a Gwyddorau Iechyd Gogledd Cymru**

Yn dilyn cyflwyno Achos Amlinellol Strategol ym mis Gorffennaf 2020, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraeth Cymru dan gadeiryddiaeth yr Athro Elizabeth Treasure yr hydref diwethaf, i ddatblygu argymhellion ar gyfer capasiti Ysgol Feddygol a Gwyddorau Iechyd ar sail Cymru gyfan. Mae gan y grŵp aelodau o bob cwr o Gymru ac mae'n cynnwys Cadeirydd a Phrif Weithredwr BIPBC ac Is-ganghellor Prifysgol Bangor. Mae'r gwaith hwn yn parhau i fynd rhagddo'n gyflym yng Ngham 2, gyda'r nod o gyflawni cynigion terfynol i'r Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol erbyn diwedd mis Gorffennaf 2021.

- **GIG 111 – Lansio yng Ngogledd Cymru**

Lansiwyd gwasanaeth 111 GIG yng Ngogledd Cymru ar 22 Mehefin 2021. Mae hyn yn golygu y gall cleifion yng Ngogledd Cymru ffonio111 i gael mynediad am ddim at ofal meddygol brys y tu allan i oriau ac arweiniad a chymorth iechyd bob awr o'r dydd a'r nos. Gyda chefnogaeth y tîm cenedlaethol, roedd y lansiad lleol yn cynnwys darn sylweddol o waith codi ymwybyddiaeth gan gynnwys sylw ar y radio, datganiadau i'r wasg, pecyn adnoddau ar-lein gydag adnoddau i bartneriaid a'r cyhoedd, deunyddiau arddangos a ddosbarthwyd i bob safle ysbyty, meddygon teulu a fferyllfeydd cymunedol, a gwybodaeth i'r holl staff ar fewnrwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

- **Model Dilynol Orthopedig Rhithwir dan arweiniad PROMs**

Yn ddiweddar, mae Ysbyty Maelor Wrecsam wedi gwneud cais am ddyfarniad Health Service Journal mewn perthynas â'u Llwybr Dilynol Rhithwir lleol dan arweiniad PROMs. Mae hwn yn brosiect sy'n defnyddio sgoriau Clun a Phengliniau Rhydychen (Oxford Hip and Knee scores) a phelydr-x i bennu'r angen clinigol am gyfarfodydd dilynol wyneb yn wyneb. Roedd hwn yn llwybr a ddyluniwyd gan ein tîm clinigol yn Wrecsam ac a weithredwyd gan y Tîm Rheoli Ysbyty lleol. Dechreuodd y prosiect y llynedd ac mae wedi canfod nad oes angen rhagor o ymgynghori wyneb yn wyneb ar 90% o gleifion clun a phengliniau ar ôl eu harchwiliad clwyf uniongyrchol 6-12 wythnos, a bod modd eu monitro neu eu rhyddhau'n rhithiol. Mae lefel y gwaith sy'n cael ei wneud mewn clinig PROMs rhithwir yn sylweddol uwch nag mewn clinig Adran Cleifion Allanol (OPD) traddodiadol gyda mwy o werth am arian o ganlyniad.

- **Cynllun Comisiynu Addysg a Hyfforddiant AaGIC (Addysg a Gwella Iechyd Cymru) 2021/22:**

Ar ôl cyflwyno Cynllun Comisiynu Addysg a Hyfforddiant AaGIC ar gyfer 2021/22, cadarnhaodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 7 Rhagfyr 2020 y byddai cyllid yn cael ei ddarparu i greu lleoliadau hyfforddiant meddygol ychwanegol ledled Cymru gan ddechrau ym mis Awst 2021, ochr yn ochr â mwy o gyllid ar gyfer addysg a hyfforddiant gweithwyr iechyd proffesiynol mewn meysydd eraill. Dros y 6 mis diwethaf, mae tîm AaGIC wedi bod yn cefnogi'r broses recriwtio genedlaethol ac yn gweithio i ganfod amgylcheddau hyfforddi addas ar gyfer y swyddi ychwanegol hyn. Oherwydd COVID, mae proses recriwtio'r DU wedi cael ei gohirio eleni, ond mae cynigion wedi parhau i gael eu cyhoeddi i gynyddu cyfraddau llenwi ledled y DU. Fel rhan o'r broses o ddyrannu swyddi newydd o fis Awst 2021 ymlaen, bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cael 11 lleoliad hyfforddiant meddygol ledled y rhanbarth.

- **Cyfamod y Lluoedd Arfog – Rhaglen Gydweithredol Cyn-filwyr Gogledd Cymru**

Mae Cyfamod y Lluoedd Arfog yn addewid y byddwn, gyda'n gilydd, yn cydnabod ac yn deall y dylai'r rheini sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog, a'u teuluoedd, gael eu trin â thegwch a pharch yn y cymunedau, yr economi a'r gymdeithas y maent yn eu gwasanaethu gyda'u bywydau. Nodwyd yn Araith y Frenhines ym mis Mai 2021 y bydd Cyfamod y Lluoedd Arfog yn cael ei ymgorffori mewn cyfraith, gan gynnwys o ran darparu gofal a chymorth gan y GIG ac Awdurdodau Lleol. Mae cais i ddatblygu Rhaglen Gydweithredol Gogledd Cymru i ymateb i ofynion y Cyfamod a darparu'r cymorth iechyd ac iechyd meddwl gorau posibl i Gyn-filwyr a'u teuluoedd i'w galluogi i wneud cyfraniad gwerthfawr parhaus i'n cymunedau wedi cael ei wneud i gronfa gymorth y Cyfamod. Os bydd yn llwyddiannus, byddai'r rhaglen yn cynnwys penodi arweinydd penodedig i gynrychioli llais Cyn-filwyr a'u teuluoedd ac i sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn bodloni ymrwymiadau'r cyfamod, gan greu gwasanaeth iechyd enghreifftiol sy'n ymwybodol o Gyn-filwyr ac sy'n ymateb i anghenion Cyn-filwyr a'u teuluoedd. Ian Donnelly, Cyfarwyddwr Acíwt Ysbyty Maelor Wrecsam sy'n arwain y cyflwyniad hwn gyda chefnogaeth yr Athro Arpan Guha, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol Dros Dro ac edrychwn ymlaen at ganlyniad y cyflwyniad maes o law.

Diweddariadau cenedlaethol

- **Rhaglen Lywodraethu Addas ar gyfer y Dyfodol – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol**

Ar 24 Mehefin, lansiodd Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, ei rhaglen Addas ar gyfer y Dyfodol. Ynddi, mae'n gofyn i Lywodraeth Cymru ddefnyddio syniadau blaengar a chydweithio â lleisiau na glywir yn aml i helpu pobl i gael gwaith diogel sy'n cynnig boddhad sy'n angenrheidiol er mwyn hwyluso adferiad Cymru ar ôl pandemig COVID-19. Mae'r rhaglen ar gael yma - 'Rhaglen Lywodraethu Addas ar gyfer y Dyfodol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru <https://www.futuregenerations.wales/cy/work/cymrueindyfodol/>

- **Adroddiadau'r Cyd-bwyllgor**
  - Roedd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC) wedi cyfarfod ar 11 Mai 2021. Mae adroddiad sicrwydd y Cadeirydd wedi'i gynnwys yn atodiad 1.
  - Roedd Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru wedi cyfarfod ar 20 Mai 2021. Mae adroddiad sicrwydd y Cadeirydd wedi'i gynnwys yn atodiad 2.

Goblygiadau Strategol
Nid oes dim goblygiadau strategol penodol yn codi o'r adroddiad hwn.

Opsiynau i'w hystyried
Nid oes rhagor o opsiynau i'w hystyried.

Goblygiadau Ariannol
Nid oes dim goblygiadau ariannol penodol yn codi o'r adroddiad hwn.

Dadansoddi Risg
Mae'r goblygiadau risg y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn yn cael eu trafod yn fanylach mewn adroddiadau ategol ar agenda'r Bwrdd Cyhoeddus.

Cyfreithiol a Chydymffurfio
Nid oes dim goblygiadau cyfreithiol a chydymffurfio penodol yn codi o'r adroddiad hwn.

Asesiad Effaith

Nid oes angen asesiad effaith i gefnogi'r adroddiad hwn.